Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 1 Rhagfyr 2022

Lisa Evans

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron., Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Diweddariad ar y sefyllfa o ran Ffosffadau (Tudalennau 3 - 10)**

4. **Rheoli Datblygu (Tudalennau 11 - 22)**

5. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 23 - 28)**

6. **Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 29 - 32)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Edwards

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**
DYDDIAD:	**7 Rhagfyr 2022**
LLEOLIAD:	**Hybrid**
TEITL:	**Diweddariad ar y sefyllfa o ran Ffosffadau**
DIBEN YR ADRODDIAD:	**Rhoi diweddariad i'r aelodau ynghylch y sefyllfa bresennol o ran ffosffadau yng Ngheredigion**
Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:	**Gofynnodd yr aelodau i swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y sefyllfa bresennol**

CEFNDIR: Ym mis Ionawr 2021 rhyddhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor cynllunio dros dro ynghylch datblygu yn nalgylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yng Nghymru. Diben y cyngor hwn oedd sicrhau, yn dilyn achos cyfreithiol yn Ewrop a elwir yn '*the Dutch case*', bod cydymffurfiaeth afon Teifi a phob ACA afonol yng Nghymru yn cael ei fonitro. Roedd afon Teifi yn methu'r targedau monitro diwygiedig ac yn gweld methiannau o ran monitro'r sefyllfa ffosffadau o bryd i'w gilydd. I bob pwrpas, roedd hyn yn golygu na fyddai unrhyw ddatblygiad pellach yn cael ei ganiatáu a allai gynyddu gollyngiadau dŵr gwastraff a'r lefelau ffosffad cysylltiedig yn yr ACA afonol. Diweddarwyd y cyngor hwn ym mis Gorffennaf 2022 sydd wedi hwyluso rhywfaint o ddatblygiadau o ran cyflogaeth, fodd bynnag mae datblygiadau preswyl a thwristiaeth yn parhau i fod yn annatblygadwy (y tu hwnt i eithriadau penodol). O ganlyniad i'r canllawiau hyn, mae nifer o geisiadau cynllunio wedi'u gohirio ac ni fu modd symud ymlaen drwy'r camau cynllunio. (Er ei bod yn werth nodi nad yw'r canllaw hwn yn berthnasol i Gynllunio yn unig ond pob math o gynlluniau neu brosiectau y mae'r cyngor yn ymgymryd â nhw.) Mae dalgylch Teifi yn ymestyn i 48% o dir Ceredigion a 3 o'r 6 phrif dref, mae hefyd yn cwmpasu cyfanrwydd y parth twf rhanbarthol a nodir yng Nghynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040 - un o ddim ond 2 yng Ngheredigion; Aberystwyth yw'r llall. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater, gofynnodd LlC i Geredigion ddatblygu Bwrdd Rheoli Maethynnau ar gyfer Afon Teifi. Mae aelodau o wasanaeth cynllunio ac ecoleg Ceredigion yn aelodau o is-grŵp ffosffad Cymru gyfan a bellach ar y grŵp goruchwylio gweinidogol, ac maent wedi chwarae rhan allweddol wrth lobïo ar lefel genedlaethol.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Ers cyflwyno'r canllawiau dros dro a diwygiedig, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos sy'n rhannu dalgylchoedd afonydd, sef Sir Gaerfyrddin (Tywi) a Sir Benfro (Cleddau) i fynd i'r afael â'r sefyllfa:

1. Gyda'n gilydd, rydym wedi sefydlu'r 3 Bwrdd Rheoli Maethynnau ac wedi cynnal y cyfarfodydd sefydlu, datblygu cylch gorchwyl, a sefydlu Grŵp Swyddogion Technegol a Grŵp Rhanddeiliaid.
2. Wedi lobïo Llywodraeth Cymru dros gyllid ar gyfer y Byrddau Rheoli Maethynnau, a dyfarnwyd swm o £75,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023, a disgwylir £100,000 y dalgylch am y 3 blynedd nesaf.
3. Penodwyd Rheolwr Rhaglen ar gyfer y Byrddau Rheoli Maethynnau i fwrw ymlaen â gwaith y Byrddau Rheoli Maethynnau a datblygu Cynllun Rheoli Maethynnau ar gyfer y dalgylch – rydym yn bwriadu hysbysebu am swyddog i gefnogi'r rôl hon yn yr wythnosau nesaf.
4. Mae ymgynghorwyr wedi'u penodi i ehangu canllawiau lliniaru a chyfrifiannell Maethynnau Sir Gaerfyrddin i ddalgylchoedd Teifi a Chleddau, a disgwylir i hyn fod yn barod ym mis Ionawr / Chwefror 2023. Bydd rhai pryderon a fynegwyd gan CNC yn cael sylw yn y datganiad newydd a rhagwelwn y bydd y gyfrifiannell hon yn cael ei mabwysiadu'n genedlaethol a'i chyflwyno fel Cyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan.
5. Rydym wedi cynnal ymarfer mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ar draws y 3 dalgylch, ac erbyn hyn mae gennym fodelau manwl o ble mae'r mannau sydd â'r nifer uchaf o ffosffadau, ac wedi awgrymu mesurau lliniaru i leihau'r ffosffadau sy'n golchi i'r afon.
6. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth dichonoldeb i greu Cynllun Cyfnewid Credyd Maethynnau yn rhanbarthol, gan gysylltu â Dŵr Cymru sydd hefyd yn gweithio ar brosiect tebyg o safbwynt Cwmni Dŵr.
7. Rydym yn ceisio cyngor manwl ar greu strategaethau tymor hir ar gyfer y Byrddau Rheoli Maethynnau drwy'r arbenigwr blaenllaw yn y maes, gan gynnwys ailystyried / profi cyrff dŵr y dalgylch i gadarnhau a oes rhai lle gallem weithredu trothwy '*de-minimis*' lle gall datblygiad fod yn dderbyniol.
8. Mae Dŵr Cymru wedi cwblhau'r gwaith dosrannu ffynonellau ar Afon Teifi ac mae hyn wedi datgelu bod 68% o'r ffosfforws a samplwyd yn yr afon yn dod o Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn hytrach na llygredd ffosffad gwasgaredig (dŵr ffo amaethyddol a dŵr wyneb ffo) fel y disgwyliwyd yn flaenorol.
9. Er mwyn mynd i'r afael â ffynhonnell y ffosffadau rydym yng nghamau cynnar gweithio gyda Dŵr Cymru i sefydlu safleoedd ar gyfer gwlyptiroedd a sut y gallwn eu datblygu i nid yn unig mynd i'r afael â lefel trwyddedi Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff ond hefyd i sicrhau bod modd caniatáu rhywfaint o ddatblygu yn y dyfodol.
10. Rydym yn cysylltu â CNC ynglŷn â ble maen nhw'n ymgymryd â phrosiectau adfer afonydd er mwyn i ni allu neidio ar gefn gwaith presennol a chynyddu'r capasiti drwy ymestyn lleiniau clustogi y gallant fod yn gweithio arnynt ar lan yr afon.
11. Rydym wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu Seilwaith

Gwyrdd ar gyfer pob un o'r 6 tref lle mae lliniaru Ffosffadau wedi bod yn thema allweddol ar gyfer datblygu'r prosiectau gwyrddu.

12. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod prosiectau lliniaru Ffosffadau wedi'u nodi yn y Cynllun Llesiant newydd.

13. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm Economi ac Adfywio i sicrhau bod Rheoli Maethynnau yn thema allweddol yng nghais Cronfa Ffyniant Gyffredin Ceredigion i Lywodraeth y DU fel y gellir ariannu prosiectau lliniaru drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Atebion:
Ers cyflwyno'r canllawiau ac wrth i wybodaeth ac arbenigedd ddatblygu yn y maes hwn yn fewnol, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol bellach o'r farn bod angen strategaeth amlochrog i fynd i'r afael â'r mater hwn ac mae felly wedi blaenoriaethu 4 ffrwd waith benodol. Mae'r manylion i'w gweld isod:

Gan ein bod bellach yn gwybod mai safleoedd trin dŵr gwastraff yw prif ffynhonnell ffosffadau, mae'n hawdd tybio mai Dŵr Cymru ddylai fod yn datrys y mater hwn, ond yn anffodus, nid yw hwn yn ddisgwyliad realistig. Er bod rhwymedigaeth bellach ar Ddŵr Cymru i roi ystyriaeth fwy cadarn i ganfod atebion i'r sefyllfa ar lannau'r Teifi, mae dal yn annhebygol y caiff y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer tynnu ffosffadau allan o'r dŵr ei osod oherwydd y costau uchel a'r dwysedd isel o ran poblogaeth. Atebion yn seiliedig ar natur sy'n mynd â phrif sylw Dŵr Cymru ac fel rhan o hynny, maent am gyflwyno rhai gwlypdiroedd i'w datblygu gan gynnwys Llanybydder yng Nghynllun Rheoli Asedau (AMP 7) a manylion ynghylch lleoliadau eraill lle gellir datblygu gwlypdiroedd yng Nghynllun Rheoli Asedau 8 (AMP 8). Mae'n bwysig ein bod yn ystyried pob ffordd bosibl o leihau ffosffadau ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol felly wedi blaenoriaethu'r 4 pwynt canlynol;

1. Mesurau yn y tymor byr i alluogi datblygu yn y misoedd nesaf: creu cyfrifiannell maethynnau a fydd yn caniatáu i ddatblygwyr ddeall eu llwyth maethynnau – bydd y canllawiau ar gyfer lleddfu'r sefyllfa o ran ffosffadau yn dangos sut y gallant wneud yn iawn am y llwyth maethynnau y maent yn ei achosi. Bydd y system fapio GIS yn nodi a ydy'r mesurau lliniaru a gyflwynwyd ganddynt yn gwneud gwahaniaeth. Yn anffodus, o ystyried maint y datblygiadau yn yr ardal hon, nid oes llawer o gyfleoedd i wneud yn iawn am y llwyth maethynnau a achosir, ond byddwn yn parhau i ymchwilio i hyn gan newid y canllawiau lliniaru ac ychwanegu atebion newydd pan fyddant ar gael.
2. Mesurau tymor canolig: mae'r rhain yn cynnwys defnyddio cyngor arbenigol i ganfod, o ystyried y methiannau o ran monitro'r sefyllfa ar y Teifi o bryd i'w gilydd, a oes unrhyw gyrff dŵr yn y dalgylch sy'n cyflawni eu targedau yn gyson (gan wneud yn well na'r targedau). Pe byddai hyn yn bod, gallem greu trothwy gan nodi o dan y trothwy hwnnw ein bod yn credu mai effaith gyfyngedig y byddai datblygiadau newydd yn ei chael ar lefelau ffosffadau yn y rhan honno o'r afon. Golyga hyn y byddai modd i ni ddweud mai dim ond effaith fach y byddai datblygiadau tai / twristiaeth hyd at ryw faint penodol yn ei chael ar yr amcanion cadwraeth yn lleoliad XYZ ac felly byddai modd dwyn y datblygiadau hyn yn eu blaen.
3. Mesurau yn y tymor canolig / tymor hirach: mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid sydd eisoes yn gwneud gwaith adfer ar afonydd megis Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai hyn yn gyfle i wella ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan greu hyblygrwydd o fewn dalgylchoedd ar gyfer datblygiadau newydd. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio o dan Adran 6 y Rheoliadau Cynefinoedd i gaffael rhestr o'r holl waith sy'n cael ei wneud a'n bwriad wedyn yw canfod cyllid i amlhau manteision y cynlluniau presennol, gan ddefnyddio pwerau rheoleiddiol y sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae'n debygol y bydd hyn yn golygu ymestyn y lleiniau clustogi ar lan yr afon. Dyma'r ffordd fesuradwy fwyaf llwyddiannus o atal ffosffadau rhag mynd i mewn i'r afon.
4. Mesurau hirdymor: mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Dŵr

Cymru ac unrhyw bartïon eraill a chanddynt fuddiant gan gyflawni gwaith peirianyddol wrth greu gwlypdiroedd. Byddai hyn yn bodloni gofynion trwyddedau Dŵr Cymru o ran safleoedd trin gwastraff dŵr gan hefyd greu hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer datblygiadau tai / twristiaeth ychwanegol yn nalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi. Oherwydd y gwaith cynllunio hirdymor sydd ynghlwm wrth ddatblygiadau o'r fath gan gynnwys caffael tir, sicrhau caniatâd cynllunio a chanfod cyllid, bydd hyn yn cymryd cryn amser i'w wireddu ond yn y pen draw dyma fydd y ffordd fwyaf cost-effeithiol o sicrhau atebion go iawn.

Mae nifer o gynlluniau lliniaru eraill yn bosib a byddwn yn parhau i archwilio pob un ohonynt, gan gofio bod hyfywedd y rhanbarth yn gyfyngedig. Byddwn felly yn ceisio sicrhau bod cost yr holl fesurau yn un rhesymol i ddatblygwyr. Wrth gwrs, bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru ariannu rhan fwyaf y costau hyn. Mae'n rhy gynnar dyfalu beth yn union fydd y costau hyn ond pan fydd y wybodaeth hon ar gael, caiff adroddiadau priodol eu paratoi.

Meysydd gwasanaeth eraill:
Mae effaith y canllawiau ar feysydd gwasanaeth eraill hefyd yn ystyriaeth bwysig:

Rheoli Datblygu:
Ers cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig, mae'r gwasanaeth Rheoli Datblygu wedi paratoi pecyn cymorth i ddatblygwyr fel y gellir gwirio a oes unrhyw un o'r ceisiadau nad oes penderfyniadau wedi'u gwneud yn eu cylch bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ymwneud â safleoedd preifat ar gyfer trin carthion. O dan feini prawf penodol iawn, mae modd bellach cymeradwyo'r rhain ond mae'r paramedrau a fyddai'n sicrhau eu bod yn dderbyniol yn llym iawn ac felly ni fyddai hwn yn ateb a fyddai ar gael i bawb. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio drwy'r achosion sydd wedi'u hôl-gronni a'r rheiny sydd newydd eu cyflwyno i wirio lle y gallai'r canllawiau fod yn berthnasol a lle y byddai modd dwyn datblygiad yn ei flaen. O ystyried bod yn rhaid i'r datblygwyr ddilyn gofynion eithaf beichus wrth gyflwyno gwybodaeth i fodloni'r gofynion, mae'r broses yn un gymharol araf gan ei bod yn bosib y bydd dal angen gwneud profion i fesur unrhyw effaith sylweddol debygol a chynnal asesiadau priodol, lle bo angen, cyn y gellid symud ymlaen i gam y penderfyniad (bydd angen arbenigedd ecolegol ar gyfer unrhyw brawf neu asesiad).

Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau (PRAM) y tîm ecolegol:
Bu'r tîm ecolegol yn llwyddiannus yn eu cais am gyllid o Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer y Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau (PRAM). Cafodd swyddog prosiect ei benodi (er i hynny ddigwydd yn hwyrach na'r hyn a fwriadwyd) ac mae'r swyddog yn gorfod dilyn amserlenni tynn o ran y cyllid wrth ddechrau ar raglen waith i sefydlu lleiniau clustogi ar lannau'r afon ac ystyried dichonolrwydd gwlypdiroedd ar dir y mae'r sector cyhoeddus yn berchen arno. Yn anffodus, lluniwyd y prosiect hwn cyn i ni sylweddoli hyd a lled y mater hwn yn llawn a dod i ddeall pa fesurau lliniaru fyddai orau. Felly, o wybod yr hyn yr ydym yn ei wybod yn awr, efallai y byddai pethau wedi cael eu gwneud yn wahanol. Wedi dweud hynny, prif ganlyniad y gwaith yn gyffredinol fydd lleihau ffosffadau yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi ac mae hyn i'w groesawu.

Edrych ymlaen at y dyfodol

Mae'n debygol ar ryw adeg yn ystod chwarter 1 yn 2023 y byddwn ni'n derbyn cyhoeddiad ynglŷn â maethynnau morol yng nghyswllt yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol, a hyd yma nid ydym yn gwybod beth fydd hyd a lled hyn. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn ymwneud â methiannau o ran cyrraedd y targedau sy'n gysylltiedig â nitrogen (mae hyn yn cael ei ystyried yn fwy o bryder mewn amgylcheddau morol). Mae tair Ardal Cadwraeth Arbennig Morol ar hyd arfordir Ceredigion (ACA Bae Ceredigion, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ac ACA Morol Gorllewin Cymru) a phe byddai'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hyn yn methu eu targedau a / neu pe byddai canllawiau tebyg i'r rhai a gyhoeddwyd yn Lloegr yn dod i rym yn yr ardal hon, gallai arwain at waharddiad ar draws y sir gyfan ar bob datblygiad sy'n cynyddu dŵr gwastraff. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad ydym yn gwybod beth gaiff ei gyhoeddi nac ychwaith a ydym mewn sefyllfa lle nad ydym yn llwyddo i gyrraedd y targedau. Hefyd, rhaid cofio y bydd y gwersi yr ydym ni wedi'u dysgu hyd yma ynglŷn â ffosffadau yn golygu ein bod mewn gwell sefyllfa i reoli materion fel hyn a rhaid cofio hefyd fod gennym lwybr clir ar gyfer rheoli'r effaith. Rydym hefyd yn gwybod ei bod yn haws cyflwyno mesurau lliniaru i fynd i'r afael â nitrogen o gymharu â'r hyn sydd angen ei wneud i ymdrin â ffosffadau ac mae'r holl waith yr ydym ar fin ei wneud o ran lleihau ffosffadau hefyd yn gweithio wrth ddelio â nitrogen. Felly, wrth i ni fwrw ymlaen â'r ffrydiau gwaith, rydym hefyd yn cynnwys trefniadau mwy eang ar gyfer monitro maethynnau a gwella'r sefyllfa gan ystyried mesurau lliniaru ar gyfer maethynnau eraill yn ogystal â ffosffadau, lle bo modd gwneud hyn.

Ffrydiau gwaith y dyfodol

- Comisiynu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn cael cyngor arbenigol ar adroddiad cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Afon Teifi, a lle bo'n briodol herio Cyfoeth Naturiol Cymru mewn modd adeiladol yn ei rôl fel corff cadwraeth natur.
- Parhau i lobïo Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn eu rôl fel rheoleiddwyr amgylcheddol er mwyn cael eglurder o ran dehongliad ac arweinyddiaeth glir.
- Cynnal adolygiad defnydd tir strategol o asedau'r Awdurdod gan nodi safleoedd at ddibenion lliniaru – byddwn yn cysylltu hyn â'r strategaeth gwaredu a'r prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau (PRAM).
- Nodi mesurau lliniaru posibl ar y safle ac oddi ar y safle gan greu rhestr fer ohonynt – casglu tystiolaeth a pharatoi costau amlinellol lefel uchel ar gyfer y cynlluniau lliniaru sydd ar y rhestr fer, gan gynnwys gwahanu dŵr wyneb, gosod cyfarpar hidlo, plannu llystyfiant, creu gwlypdiroedd– byddwn yn cynnal arfarniadau dichonolrwydd a thechnegol ac yn nodi ffrydiau ariannu.
- Paratoi mapiau GIS sy'n dangos yr opsiynau lliniaru.
- Datblygu strategaeth ar gyfer cyflawni cynlluniau lliniaru oddi ar y safle.
- Sefydlu fframwaith ar gyfer System Cyfnewid Credydau Maethynnau, ei ddatblygu a'i roi ar waith.
- Datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Rheoli Maethynnau gan ystyried y sefyllfa yn lleol.
- Archwilio'r posibilrwydd o ôl-osod Stoc Dai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan gynnwys mesurau arbed dŵr fel y gellir darparu Tai Fforddiadwy.
- Datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch cadw dŵr a lleihau'r defnydd ohono.
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer amodau Grampian a chytundebau adran 106 i sicrhau mesurau lliniaru.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam** ***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**	Na, gan mai trafodaeth yw hon ac nid yw'n cynnwys creu na datblygu polisi.

ARGYMHELLION:

Dim argymhellion ffurfiol, trafodaeth er gwybodaeth yn unig.

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Enw Cyswllt:	Dr Sarah Groves-Phillips
Swydd:	Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio
Dyddiad yr Adroddiad:	14/11/2022
Acronymau:	

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Craffu Cymunedau Ffyniannus**
DYDDIAD:	**7fed Rhagfyr 2022**
LLEOLIAD:	**Ar-lein**
TEITL:	**Rheoli Datblygu**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar Gynllunio**
Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	**Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion roi diweddariad iddynt ar waith mewn ymateb i Adroddiad Cynllunio Archwilio Cymru.**

CEFNDIR:

Yn 2021 cwblhaodd Archwilio Cymru adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio yng Ngheredigion. Cafodd y ddogfen adolygu derfynol ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r adroddiad yn nodi 10 argymhelliad yn ymwneud â threfniadau llywodraethu a gwella capasiti'r gwasanaeth.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Mae Atodiad 1 yn cyflwyno ymateb y Cyngor a'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion hyn.

Symudwyd y gwaith yn ei flaen drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd yn gynharach yn 2021 i roi Cynllun Gweithredu ar waith ar gyfer gwella materion llywodraethu a pherfformiad. Roedd y ffocws hyd at fis Mawrth 2022 yn bennaf ar fynd i'r afael â materion llywodraethu a dynodi adnodd ychwanegol i ddelio ag ôl-groniadau mewn ceisiadau cynllunio a gorfodi.

Arweiniodd y gwaith ar faterion llywodraethu at newidiadau i'r Cyfansoddiad y cytunwyd arnynt ym mis Mawrth 2022 gan gynnwys:

Cylch Gorchwyl Newydd
Gweithdrefnau Gweithredol Newydd
Cod Ymarfer Newydd
Pwerau Dirprwyedig Newydd

Darparwyd hyfforddiant i bob Aelod ar ôl yr etholiadau ym mis Mai; mae'r newidiadau hyn wedi'u sefydlu yn awr ac mae gweithdrefnau ac arferion wedi'u mabwysiadu'n dda.

Er mwyn rhoi sylw i faterion perfformiad, roedd rhaid ystyried mynd i'r afael â materion ym mhedwar prif faes y broses rheoli datblygu - dilysu, oedi o ran ymgyngoreion, ffosffad a chapasiti staff i ddelio ag achosion.

Roedd dilysu yn rhedeg 8 wythnos yn hwyr ac felly roedd achosion yn aml yn cyrraedd swyddogion ar adeg pan ddylai penderfyniad gael ei wneud fel rheol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, darparwyd adnoddau a hyfforddiant yn gorfforaethol. Mae'r sefyllfa bresennol yn un lle y mae'r rhan fwyaf o geisiadau'n cael eu prosesu o fewn diwrnod neu ddau o gael eu cyflwyno, sef lle yr hoffai'r gwasanaeth fod. Mae materion eraill yn parhau gan fod nifer sylweddol o geisiadau o ansawdd gwael sy'n golygu bod angen mwy o wybodaeth neu newidiadau ar nifer er mwyn iddynt gael eu dilysu.

Mae oedi o ran ymgyngoreion yn aml yn adlewyrchu problemau capasiti yn rhywle arall, er enghraifft yn yr adran Briffyrdd neu Ecoleg. Lle bo gan y Cyngor reolaeth, darparwyd adnoddau ychwanegol er mwyn helpu i ddelio â materion. Ceisir cael mwy o adnoddau i gynorthwyo â mewnbwn ecolegol, yn enwedig er mwyn helpu i glirio achosion lle y mae ffosffad wedi bod yn broblem.

Arweiniodd mater ffosffad at nifer o achosion yn cael eu rhoi i'r naill ochr gan greu ôl-groniad o achosion. Bydd canllawiau newydd a proforma yn helpu i symud rhai ceisiadau yn eu blaen ond bydd yn rhoi pwysau dros y 3-4 mis nesaf o ran clirio achosion.

At ei gilydd, mae 511 cais cynllunio yn awr (lle'n ddelfrydol byddai'r gwasanaeth yn dymuno cael tua 200) a 550 o achosion gorfodi (ni ddylai fod mwy na 200 o achosion yn ddelfrydol).

Gan fod recriwtio staff wedi bod yn anodd, cynhaliwyd ymarfer tendro i ymgysylltu ymgynghorwyr yn gynharach yn y flwyddyn ac, ar ôl gwerthuso'r tendrau, penodwyd Capita i gefnogi'r gwasanaeth i ymdrin â cheisiadau cynllunio ac achosion gorfodi. Mae Capita wedi gweithio'n ddiwyd ar achosion ers dechrau Medi 2022 ac yn dechrau cyflwyno argymhellion fel y gall yr Awdurdod wneud penderfyniadau. Yr un yw'r broses ar gyfer ystyried ceisiadau neu faterion gorfodi a gwneud penderfyniadau dim ots a yw'r staff yn rhai mewnol neu wedi'u contractio.

Disgwylir i'r trefniadau uchod wneud gwahaniaeth amlwg yn lefel yr ôl-groniad a'r amser a gymerir i gyflenwi penderfyniadau dros y 3-4 mis nesaf, ond mae'n debygol o gymryd hyd at 12 mis i gyrraedd y lefel orau.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** **Crynodeb:** **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**	Na, gan mai trafodaeth yw hon ac nid yw'n llunio neu ddatblygu polisi.

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Dim argymhellion ffurfiol; trafodaeth er gwybodaeth yn unig.

Rhoi diweddariad ym mis Ebrill 2023 ar yr effaith ar yr ôl-groniad a'r mesurau perfformio chwarterol arferol.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Rhoi diweddariad i'r Aelodau.

Enw Cyswllt:	Russell Hughes-Pickering
Teitl:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio
Dyddiad yr Adroddiad:	18/11/2022
Acronymau:	

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio

Dyddiad cyhoeddi: 16eg Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2602A2021-22

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	Llywodraethu			
A1	Dylai'r Cyngor adolygu ei gyfansoddiad i gryfhau'r broses o lywodraethu ei drefniadau rheoli datblygu. Dylai'r adolygiad: • dysgu o drefniadau llywodraethu rheoli datblygu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) eraill; • datblygu Cylch Gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor, i ddatgan yn glir	• Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu camau a fydd yn gwella'r Gwasanaeth Cynllunio gan gynnwys gwneud penderfyniadau. • Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gynllun Gweithredu ar 6ed Gorffennaf. • Mae'r Cynllun Gweithredu yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac fe'i diwygiwyd ar 10fed Tachwedd i gynnwys	Mawrth 2022	Russell Hughes-Pickering (RHP), Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Cefnogaeth gan Reoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol; • diffinio'r hyn y mae'n ei ystyried yn geisiadau cynllunio strategol bwysig a 'mawr'; • cryfhau cynllun dirprwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu drwy ystyried codi'r trothwy ar gyfer ceisiadau cynllunio a elwir i Bwyllgor i'w alluogi i ganolbwyntio'n well ar geisiadau mwy strategol bwysig a cheisiadau mawr; • sicrhau bod ceisiadau cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac nid o dan bwerau dirprwyedig swyddogion i ddiogelu rhag unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig ac i hyrwyddo annibyniaeth a thryloywder; • adolygu cydbwysedd yr amser y mae'n rhaid i aelodau wardiau lleol siarad ar geisiadau cynllunio mewn cyfarfodydd pwyllgor o'i gymharu ag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr; ac • adolygu a chynnwys Cod Ymarfer Cynllunio'r Cyngor yn y cyfansoddiad	argymhellion Adroddiad Cynllunio Archwilio Cymru. • Mae adolygiad o'r Cyfansoddiad ac arfer ar hyn o bryd, gan ystyried trefniadau mewn awdurdodau eraill, yn mynd rhagddo. • Cytunwyd ar newidiadau i'r Cyfansoddiad ym mis Mawrth 2022. Roedd y newidiadau'n cynnwys: o Cylch Gorchwyl Newydd o Gweithdrefnau Gweithredol Newydd o Cod Ymarfer Newydd o Pwerau Dirprwyedig Newydd • Roedd y newidiadau i'r Pwerau Dirprwyedig yn cynnwys: o Yr angen i adrodd ar geisiadau mawr i'r Pwyllgor o Yr un modd, yr angen i adrodd ar achosion a gyflwynwyd gan y Cyngor, Aelodau'r Cyngor, Uwch Swyddogion, Staff Cynllunio a rhai â chysylltiad agos â'r Pwyllgor. • Mae'r Gweithdrefnau Gweithredol a'r Cod Ymarfer yn rhoi mwy o eglurder ar rôl aelodau wardiau lleol ac aelodau'r Pwyllgor.		Gwasanaethau Democrataidd.

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	a sicrhau bod aelodau'n ei ddeall ac yn gweithredu yn unol ag ef.			
A2	Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei Bwyllgor Rheoli Datblygu a'i drefniadau cymorth pwyllgorau yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a phrosesu gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.	• Cafodd aelodau hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) fel rhan o'r broses gynefino ym misoedd Mai/Mehefin 2022. • Rhoddir cyngor ar GDPR a Diogelu Data hefyd yn y Cod Ymarfer.	Mai / Mehefin 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd a Chyswllt Cwsmeriaid.
A3	Mae angen i aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu'r Cyngor sicrhau bod unrhyw benderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr.	• Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar broses ohirio er mwyn 'callio' ym mis Gorffennaf 2021. Rhannwyd a chytunwyd ar hyn gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 14eg Gorffennaf 2021. • Gweithredwyd y broses gyntaf mewn achosion a ystyriwyd yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 28ain Gorffennaf 2021. • Cafodd y grŵp ei gydnabod yn ffurfiol yn y newidiadau i'r Cyfansoddiad a chyflwynir ei gylch gwaith yn y Gweithdrefnau Gweithredol. • Mae'r Grŵp 'Oeri' wedi cwrdd yn rheolaidd o'r cychwyn ac wedi helpu i leihau'r nifer o benderfyniadau a wneir a	Gorffennaf 2021 ac ar waith	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Gwasanaethau Democrataidd.

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		fyddai'n golygu gwyro'n sylweddol o bolisi.		
A4	Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cofnodion o'i gyfarfodydd Pwyllgor Rheoli Datblygu 'cyhoeddus' ar gael i'r cyhoedd ar ôl cyfarfodydd pwyllgor i gadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y dyfodol.	• Gwnaed trefniadau i gynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022. Ers mis Hydref 2022 mae aelodau o'r cyhoedd wedi gallu dod i gyfarfodydd wyneb yn wyneb neu ddod i gyfarfodydd rhithwir. • Bydd y system yn caniatáu i gyfarfodydd gael eu recordio a bod ar gael ar-lein. • Ar hyn o bryd dim ond cyfarfodydd Cyngor a chyfarfodydd Cabinet mae'r Cyngor yn eu rhoi ar sgrin ac yn eu recordio. Nid yw'n recordio cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac felly nid ydynt ar gael ar ôl cyfarfodydd.	Mai 2022	Gwasanaethau Democrataidd, Cyswllt Cwsmeriaid.
A5	Dylai'r Cyngor sicrhau bod penderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu sy'n ymwneud â chartrefi 'fforddiadwy' yng nghefn gwlad agored yn cael eu gwneud a'u hadrodd yn gywir yn unol â chanllawiau atodol Tai Fforddiadwy'r Cyngor	• Mae gweithdai rheolaidd i'r Aelodau wedi darparu hyfforddiant ychwanegol iddynt ar bolisïau cynllunio, apelio a galw penderfyniadau i mewn. • Mae adroddiadau i'r Pwyllgor yn egluro cyd-destun y polisi pan fo cynigion yn ymwneud â thai fforddiadwy. • Mae'r Broses 'Oeri' yn caniatáu i achosion gael eu hystyried yn fwy manwl cyn gwneud penderfyniad terfynol. • Mae Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl yn cael ei ddefnyddio i fonitro graddfa a lleoliad tai fforddiadwy a gyflenwir yn y Sir.	Mawrth 2022 / ar waith	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio a Gwasanaethau Democrataidd.

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		• Paratowyd dau bapur yn ychwanegol at hyn. Mae un yn ystyried y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn gyffredinol, a'r llall yn benodol i leoliadau eraill.		
A6	Dylai'r Cyngor a'r Pwyllgor Rheoli Datblygu asesu goblygiadau cronnol ac effaith seilwaith hirdymor cymeradwyo anheddau fforddiadwy sengl a cheisiadau cynllunio TAN 6 yng nghefn gwlad agored er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gynaliadwy ac yn gydlynol at flaenoriaethau corfforaethol ehangach y Cyngor	• Yn ôl eu hunion ddiffiniad, bydd angen lleoli ceisiadau TAN6 yn ymarferol agos at y daliad amaethyddol neu'r annedd. Mae'n hanfodol sicrhau y gellir cyfiawnhau ceisiadau drwy wybodaeth ategol sy'n dangos y cydymffurfir â'r profion a nodir yn y TAN. • Pan fo Aelodau yn dymuno cefnogi achosion lle nad oes digon o wybodaeth, caiff achosion eu cyfeirio i'r Grŵp 'Oeri'. • Mae polisïau hefyd yn caniatáu ar gyfer tai fforddiadwy lle maent yn aneddiadau neu'n gyfagos iddynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig eu bod yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y CDLl a'r canllawiau atodol. • Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn helpu i fonitro penderfyniadau a'u cydymffurfiaeth â'r CDLl a'i bolisïau.	Mawrth 2022 / ar waith	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio a Gwasanaethau Democrataidd.
	Cynllunio Gwasanaethau			
A7	Dylai Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor:	• Bydd Cynlluniau Busnes a Gwasanaeth yn cael eu hadolygu.	Hydref 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu a Pholisi Cynllunio,

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	Cyflwyno ei wybodaeth a'i dargedau perfformiad yn gliriach yn ei gynlluniau busnes	• Mae Safonau Gwasanaeth Dros Dro wedi'u drafftio. • Mae Ymgynghorwyr wedi'u penodi i gynorthwyo gydag ôl-groniad yn y ceisiadau cynllunio a gorfodi. • Bydd hyn yn helpu i lywio'r mesurau a'r targedau perfformiad diwygiedig. • Y nod yw mynd i'r afael â materion yn 2022/23 a chael targedau sy'n cyd-fynd fwy â chyfartaledd Cymru, ac yn uwch na hynny, yn 2023/24.		
A8	Adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyfuno rolau'r Swyddog Rheoli Datblygu a Gorfodi gan gynnwys yr effaith ar berfformiad.	Mae hyn i'w adolygu pan fydd llwyth achosion wedi'u lleihau	Hydref 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu,
	Monitro			
A9	Dylai'r Cyngor sefydlu fframwaith i sicrhau ei hun bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cyfrannu'n gydlynol ac yn gynaliadwy at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor	• Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r ddogfen fwyaf priodol ar gyfer aseseu cyflawni amcanion y CDLl. • Mae'r Cyngor wedi drafftio Strategaeth Gorfforaethol newydd ag iddi fwy o bwyslais ar gyflawni datblygiad cynaliadwy.	Mawrth 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Gwasanaethau Democrataidd.
	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol			

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A10	Wrth wneud unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth cynllunio, dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle i ystyried sut y gallai weithredu'n agosach yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor wrth wneud penderfyniadau cynllunio	• Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r ddogfen fwyaf priodol ar gyfer asesu cyflawni amcanion y CDLl. • Paratowyd papurau eraill i ystyried y broses benderfynu mewn perthynas â thai fforddiadwy yn gyffredinol ac mewn lleoliadau eraill. • Darperir hyfforddiant parhaus i'r Aelodau ar rôl cynllunio a'r angen i adlewyrchu polisïau wrth wneud penderfyniadau. • Mae mwy o destun yn cael ei roi mewn adroddiadau i egluro'r pwysigrwydd o gyflawni polisïau creu lleoedd wrth ystyried ceisiadau.	Mawrth 2022	RHP, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Rheoli Datblygu, Polisi Cynllunio, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Democrataidd.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ddydd Mercher, 19 Hydref 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Marc Davies (Is-gadeirydd), Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Steve Davies, Rhodri Evans, Wyn Evans, Chris James, Maldwyn Lewis, John Roberts a Carl Worrall.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Ann Bowen Morgan, Euros Davies, Ifan Davies, Elizabeth Evans a Gareth Lloyd.

AELODAU CABINET YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Keith Henson, Wyn Thomas ac Alun Williams.

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio; Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol, Twf a Menter; Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd; Norman Birch, Swyddog Coed Ynn; Owen Stephens, Uwch Beiriannydd; Lyndon Griffiths, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Eiddo; Bethan Lloyd Davies, Rheolwr Rhaglen Lleihau Carbon, Ynni a Rheoli Asedau; Allan Bailey, Rheolwr Rhaglen; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau; Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd; Llinos Williams a Rhidian Jones, Cyfieithwyr.

(10.02 am - 1.15 pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Sian Maehrlein am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 Cynnydd o ran cyflawni'r Strategaeth Economaidd

Cyflwynodd y Cynghorydd Clive Davies, yr Aelod Cabinet, wybodaeth am y cefndir, y camau gweithredu a oedd wedi'u rhoi ar waith yn y Strategaeth a'r meysydd ffocws ar gyfer y dyfodol fel yr amlinellwyd hwy yn yr adroddiad gan gynnwys yr heriau o ran y 4 maes ymyrraeth (Pobl, Lleoedd, Menter a Chysylltedd) yn y Strategaeth Economaidd. Dywedwyd bod y data ynghylch cysylltedd yn y sir wedi gwella ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau am faterion a oedd o ddiddordeb iddynt. Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Cynghorydd Clive Davies and Arwyn Davies. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Codwyd pryderon ynghylch a fyddai'r cyllid cyfalaf i ardaloedd gwledig ar ffurf grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru yn parhau ar yr un lefel â'r blynyddoedd diwethaf o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi lansio Cronfa Arloesi Arfor yn ddiweddar ond nid oedd y cyllid wedi'i ryddhau eto. Cydnabuwyd llwyddiant Cynghorau Ceredigion a Phowys o ran sicrhau Cytundeb y Fargen Lawn ar gyfer rhaglen buddsoddi cyfalaf a fyddai gwerth £110m.
- Roedd gwaith yn parhau yn Llanbedr Pont Steffan a Llandysul i ailddefnyddio asedau canol tref at ddibenion economaidd a gwella'r seilwaith gwyrdd.
- Ystyriwyd bod y prosiect a oedd yn caniatáu i gwmnïau sefydlu mentrau dros dro mewn siopau gwag yn bwysig i fusnesau annibynnol newydd. Y gobaith oedd y byddai'r prosiect hwn yn cael ei ehangu y tu hwnt i Aberystwyth.
- Roedd angen gwneud gwaith i ddatblygu canol y trefi, yn enwedig canol tref Aberystwyth, yn fannau aml-bwrpas. Dylid ystyried cyflwyno eithriadau o ran talu ardrethi annomestig fel ffordd o ddenu busnesau i ganol y trefi.
- Roedd yr adran yn gweithio'n galed wrth ymgeisio am grantiau gan wneud hynny weithiau o fewn amserlenni byr iawn. Roedd yn allweddol bwysig sicrhau bod unrhyw gyllid grant yn berthnasol i'r Strategaeth Economaidd.
- Dywedwyd bod rhaglen Helix Canolfan Bwyd Cymru ar hyn o bryd ar ail flwyddyn contract 3 blynedd gyda Llywodraeth Cymru. Roedd y Ganolfan yn un o dair canolfan yng Nghymru. Awgrymwyd cynnal diwrnod agored i'r cyhoedd a busnesau.
- Yn dilyn pryderon ynghylch cysylltedd yn y sir, nodwyd bod gan 88% o eiddo/adeiladau fand eang â chyflymder o fwy na 30Mb ond roedd y sir yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiadau marchnad agored er mwyn deall y sefyllfa bresennol felly roedd y broses o gyflwyno cysylltiad ffeibr i'r adeilad wedi arafu ychydig. Roedd croeso i'r Aelodau gysylltu â'r Aelod Cabinet neu swyddogion os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau.
- Adeg y cyfarfod, roedd swydd y Swyddog Datblygu Trefi yn wag.
- Wrth ymateb i awgrymiadau y gellid gosod finyl ar ffenestri siopau gwag, dywedwyd bod cyfleoedd o dan y Rhaglen Trawsnewid Trefi i ymgeisio am grantiau i wella adeiladau. Anogwyd yr Aelodau a oedd yn cynrychioli trefi i gysylltu â swyddogion i drafod hyn.
- Rhannwyd pryderon ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu canolbarth Cymru. Dywedwyd bod rhoi strategaeth glir ar waith yn allweddol wrth fynd ar drywydd cyfleoedd buddsoddi megis Bargen Dwf Canolbarth Cymru. Roedd gan y swyddogion berthynas dda â Llywodraeth Cymru ac roedd trafodaethau yn cael eu cynnal yn aml i sicrhau bod y polisïau o fudd i'r rhanbarth.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunodd yr Aelodau i nodi'r adroddiad a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Strategaeth Economaidd.

4 Gwywiad Coed Ynn - Diweddariad er gwybodaeth

Cyfeiriodd y Cynghorydd Keith Henson, yr Aelod Cabinet, at ddiben yr adroddiad, y rheswm yr oedd y Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth a'r cefndir a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. Roedd yn bwysig ystyried y diffyg adnoddau a deall y gost ychwanegol a'r holl waith fyddai angen ei wneud i sicrhau diogelwch y dinasyddion.

Esboniodd Phil Jones fod y swyddogion wedi ymchwilio i weld a fyddai modd gwneud y gwaith hwn yn fewnol a defnyddio'r sgil-gynnyrch i fwydo biomas yr Awdurdod. Cyfeiriwyd at y tri atodiad a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Nodwyd bod Gwywiad Coed Ynn yn fater corfforaethol. Roedd y Cyngor yn delio â'r mater drwy flaenoriaethu ar sail risg. Ers dechrau archwilio asedau'r Cyngor ar sail blaenoriaeth, daethpwyd i'r casgliad nad oedd maint y broblem ar y tir yr oedd y cyngor berchen arno gynddrwg â'r hyn a ragwelwyd yn y lle cyntaf.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau am faterion a oedd o ddiddordeb iddynt. Atebwyd y cwestiynau hyn gan Phil Jones, Norman Birch a Rhodri Llwyd. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Yn y lle cyntaf, bwriad rhaglen y prosiect oedd gwneud y gwaith dros gyfnod o 10 mlynedd gan wneud rhan fwyaf y gwaith rhwng y drydedd a'r chweched flwyddyn. Yn ddibynnol ar y gyllideb a'r contractwyr a fyddai ar gael, y gobaith oedd y byddai modd cwblhau'r gwaith yn gynharach ond byddai'r gwaith o ddelio â'r clefyd a drosglwyddir drwy'r awyr yn parhau.
- Roedd rhan fwyaf y coed wrth ymyl y priffyrdd a'r hawliau tramwy cyhoeddus ym mherchnogaeth perchnogion y tir. Nhw felly oedd yn gyfrifol am archwilio'r coed. Wrth gynnal archwiliadau, os byddai swyddog yn ystyried bod coeden ar dir, nad oedd yr awdurdod yn berchen arno, yn anniogel, byddai Hysbysiad Adran 154, Deddf y Priffyrdd yn cael ei roi i'r perchennog tir. Yn sgil hynny, byddai angen i'r perchennog tir hurio contractwyr o fewn 14 diwrnod. Byddai modd i'r Awdurdod gynorthwyo â'r broses honno, pe byddai angen.
- O ran blaenoriaeth, roedd y coed yn cael eu rhoi mewn 4 dosbarth yn ddibynnol ar y graddau yr oeddent wedi dirywio. Byddai hysbysiadau i berchnogion coed yn nosbarth 4 yn cael eu blaenoriaethu. Byddai rhai coed yn Nosbarth 1 a 2 yn gwrthsefyll y clefyd ac yn goroesi. Roedd hyn yn bwysig o ran cadw coed cynhenid.
- Pe byddai gorchymyn cadw coed ar waith, byddai angen cyflwyno hysbysiad ynghylch gwneud cais am gwympo coeden.
- Codwyd pryderon nad oedd dim ymgynghori wedi bod â'r sector amaethyddol yng Ngheredigion o ran cynorthwyo â'r gwaith o dorri coed mewn cyfnewid am y naddion pren. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch arbedion maint gan fod y gofynion o ran cwympo coed unigol yn wahanol iawn i'r gofynion o ran cyflawni'r gwaith yng nghyswllt coedwig.
- Teimlai'r Aelodau na fyddai'n gwneud synnwyr busnes cyflawni'r gwaith yn fewnol er y byddai hynny'n golygu yn yr hirdymor y byddai'r cyfarpar ym meddiant yr awdurdod.

- Er mwyn sicrhau bod gan bawb y cyfle i dendro am y gwaith, teimlai'r aelodau fod tryloywder yn allweddol wrth fynd ati i lunio'r matrics. Roedd fframwaith ar gyfer contractwyr gwaith coed wrthi'n cael ei ddatblygu a byddai digwyddiad cwrdd â'r contractwr yn cael ei gynnal i gynorthwyo â'r broses dendro ar-lein.
- Pe byddai mwy na 5 metr ciwbig o goed mewn un chwarter penodol yn cael eu torri i lawr heb drwydded cwympo coed, Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr asiantaeth gorfodi, fyddai'n cymryd camau.
- Oherwydd pryderon ynghylch diogelu'r cyhoedd, awgrymwyd y dylid rhoi gwybod i'r cyhoedd am y broblem gan bwysleisio mai cyfrifoldeb y perchennog tir oedd delio â choed yr effeithiwyd arnynt ar eu tir. Roedd yn allweddol mynd ar drywydd yr hysbysiadau a roddwyd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunodd yr Aelodau i nodi'r adroddiad.

5 Cynllun Gweithredu Sero Net - diweddariad ar y cynnydd

Dywedodd y Cynghorydd Keith Henson, yr Aelod Cabinet, mai diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed o ran y camau a oedd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Sero Net. Cyfeiriwyd at y cefndir fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Esboniodd Bethan Lloyd Davies fod adroddiadau yn cael eu paratoi fel rhan o'r Cynllun Rheoli Carbon ers 2017/18. Yn 2021/22, roedd ffynonellau ychwanegol ar gyfer allyriadau wedi cael eu hychwanegu ac felly roedd angen gwneud llawer o waith cyn adrodd ar yr allyriadau yn y dyfodol.

Rhoddwyd y cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau. Atebwyd y cwestiynau hyn gan Bethan Lloyd Davies a Rhodri Llwyd. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Cododd yr Aelodau bryderon nad oedd gan y grid ddigon o gapasiti i wasanaethu'r sir a chefnogi ymrwymiad yr Awdurdod i fod yn Sero Net erbyn 2030. Dywedwyd bod y mater hwn yn cael ei godi'n aml mewn cyfarfodydd a bod awdurdodau cyfagos yn ei godi hefyd. Roedd National Grid a Scottish Power yn eistedd ar fyrddau a oedd yn llunio cynlluniau ynni lleol. Serch hynny, prin oedd eu cyllidebau a byddent yn buddsoddi yn y mannau lle ystyrir bod angen gwneud hynny.
- Er bod gweithwyr yn teithio llai i'r gwaith am eu bod yn gweithio gartref, codwyd pryderon y byddai angen gwresogi mwy o gartrefi yn ystod y dydd yn nhymor y gaeaf. Dywedwyd bod yr allyriadau o weithio gartref yn cael eu hystyried yn Adroddiadau Allyriadau Llywodraeth Cymru.
- Roedd y trydan a oedd yn dod o'r paneli solar a osodwyd ar adeiladau'r Cyngor yn cael ei ddefnyddio gan yr adeiladau yn y lle cyntaf ac roedd gweddill y trydan yn cael ei anfon i'r grid. Os oedd yna daliad Tariff Cyflenwi Trydan ynghlwm, roedd y taliadau'n cael eu gwneud yn ganolog i'r awdurdod. Yn gyffredinol, roedd yn cymryd 10 mlynedd i adennill yr arian a fuddsoddwyd ynddo.
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad rheoli tir ynghylch Canolfan Rheidol ac Ysgol Bro Teifi; nid oedd y canfyddiadau wedi dod i

law hyd yma. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi maes o law i fatris er mwyn storio'r ynni a oedd dros ben.

- Nodwyd bod y bwriad o ddod yn Sero Net erbyn 2030 yn uchelgeisiol o ystyried y sefyllfa ariannol. Ar hyn o bryd, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cosbi'r awdurdod am beidio â chyrraedd Sero Net erbyn 2030, ond dyma oedd yr amcan yn genedlaethol ar gyfer cyrff yn y sector cyhoeddus.
- O ran fflyd yr awdurdod, byddai'r posibilrwydd o drosi'r cerbydau i rai a oedd yn defnyddio Olew Llysiau wedi'i drin â dŵr (HVO), a oedd yn ddrutach, yn cael ei archwilio ynghyd â hydrogen. Nodwyd bod HVO 20% yn well na disel ar y cyfan ond fel yr oedd pethau, o ddefnyddio methodoleg Llywodraeth Cymru, byddai hyn yn arwain at welliant bach yn y ffigurau yn unig.
- Dywedwyd y byddai plannu coed yn cael ei ystyried yn yr hirdymor i wrthbwyso carbon ac am bob coeden a fyddai'n cael ei dorri ar dir yr oedd y Cyngor yn berchen arno oherwydd Gwywiad Coed Ynn, byddai 3 coeden yn cael eu plannu yn eu lle. O ran y ffigurau, roedd coed yn dod o dan y pennawd allyriadau ar y tir.
- Roedd awdurdodau lleol eraill yn defnyddio'r un system i gasglu data at ddibenion adrodd. Y gobaith y flwyddyn nesaf oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu gwell methodoleg fel y gallai awdurdodau gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa. Ar hyn o bryd, po fwyaf o arian a oedd yn cael ei wario, y mwyaf o garbon a oedd yn cael ei gynhyrchu.
- Nid oedd yr awdurdod ond yn medru adrodd ar ddaliadau tir y Cyngor. Roedd cyrff eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys tir yr oeddent yn berchen arno yn eu hadroddiadau nhw.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunodd yr Aelodau i nodi'r cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran y camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Sero Net.

6 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 yn gywir.

Materion yn codi:

- Dywedodd y Cynghorydd Rhodri Evans ei fod yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 a gofynnodd am ychwanegu ei enw at fersiwn Gymraeg y cofnodion.
- Esboniodd y Cadeirydd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi anfon llythyr yn ôl yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022; roedd copi o'r llythyr wedi'i anfon at aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod heddiw.

7 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu

Cytunwyd nodi cynnwys y Flaen raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Cyfarfod dilynol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ynglŷn â'r ffosffadau
- Adroddiad am yr angen i nodi mannau y gellid eu hail-agor megis rheilffyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio

- Diweddariad am gynnydd – Gwaith Rheoli Datblygu a Gorfodi (yn dilyn cyfarfodydd y gyllideb)

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu**
DYDDIAD:	**7 Rhagfyr 2022**
LLEOLIAD:	**Hybrid**
TEITL:	**Blaenraglen Waith Ddrafft 2022/23**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor**
Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:	**Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod**

CEFNDIR:

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

Dewis pynciau

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

Enw Cyswllt:	Lisa Evans
Dynodiad:	Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr Adroddiad:	30/11/2022
Acronymau:	BW- Blaenraglen Waith FWP- Forward Work Programme

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2022/23

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
Cymunedau Ffyniannus			
27 Gorffennaf 2022	Strategaeth Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Rheoli gwastraff Strategaeth Economaidd Trosolwg o'r adran Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol		
19 Hydref 2022	Strategaeth economaidd Diweddariad ar Clefyd coed ynn Reoli Carbon		
7 Rhagfyr 2022	Ffosffadau Rheoli Datblygu a Gorfodi		O'r gofrestr risg
10 Chwefror 2023 9.30am	Paratoi'r cyllideb		

5 Ebril 2023	Defnyddio hen reilffyrdd ar gyfer beicio / cerdded		
Cyfarfodydd y dyfodol	Awgrymiadau: Effaith cynlluniau a ariennir gan grant – beth yw'r effaith, pa mor dda mae arian yn cael ei dynnu i lawr Defnydd o le – sut allwn ni ei wneud yn fwy bywiog, cynyddu incwm Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd (o'r gofrestr risgiau) CDLl Adolygu strategaeth toiledau cyhoeddus		